# Astudiaeth Achos *Joined Up Music*

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru yn 2009 gan gerddorion a'r sawl sy'n caru cerddoriaeth i gynyddu mynediad at gerddoriaeth fyw o ansawdd uchel yng nghanolbarth Cymru, yn enwedig ym Mhowys sef y sir ehangaf a mwyaf gwasgaredig ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae gan yr elusen ddiddordeb penodol mewn addysg gerddoriaeth ac mae wedi datblygu rhaglen uchel ei pharch i ysgolion gan gynnwys gweithdai a pherfformiadau.

## Yr Her

Roedd y prosiect wedi ymateb i'r her o ymestyn mynediad plant a phobl ifanc ym Mhowys at brofiadau perfformio a chyfansoddi a gwneud cerddoriaeth o ansawdd uchel. Mae natur wledig Powys, ei phellter o ganolfannau trefol, a diffyg gwasanaethau cerddoriaeth y sir, oll yn cyfuno i wneud mynediad at addysg gerddoriaeth yn her wirioneddol yma. Mae darpariaeth gerddorol yn brin ac yn rhanedig, wedi'i chyflwyno gan elusennau bychain a sefydliadau gwirfoddol sydd heb yr adnoddau na'r cylch gorchwyl i gyflwyno seilwaith canolog i'r sir gyfan.

Mae'r Ymddiriedolaeth eisiau i fwy o blant gael y cyfle i brofi cerddoriaeth fyw, i ddatblygu eu sgiliau ac ymgysylltu gyda'u treftadaeth ddiwylliannol. Roeddynt eisiau sicrhau fod y rhaglen y maen nhw ac elusennau a sefydliadau eraill yn ei gyflwyno yn cael yr effaith fwyaf posibl o ran datblygiad creadigol, cymdeithasol, personol ac addysgol.

## Yr Ateb

Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu model partneriaeth, gan ddod ag elusennau cerddoriaeth, lleoliadau celfyddydol ac ysgolion ynghyd i ddatblygu rhaglen o weithgareddau i estyn mynediad at gerddoriaeth ac addysg gerddorol, rhannu eu harbenigedd, cynyddu effaith y gwaith mae sefydliadau unigol yn ei gyflawni, ac atgyfnerthu cynaliadwyedd parhaus eu gwaith.

Partneriaid y prosiect:
Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru (Partner sy'n Arwain)
Cerddoriaeth Ieuenctid De Powys
Theatr Brycheiniog Aberhonddu

Sinfonia Cymru (Blynyddoedd 2 a 3)
Canolfan Gelfyddydol Wyeside, Llanfair-ym-Muallt (Blynyddoedd 2 a 3)
Hafren Y Drenewydd (Blynyddoedd 2 a 3)

Ysgolion Arweiniol:
Ysgol Penmaes, Aberhonddu, de Powys (anghenion addysgol arbennig)
Ysgol Gynradd Cleirwy, ger Y Gelli Gandryll, de Powys
Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt, canol Powys
Ysgol Gynradd y Bontnewydd ar Wy, canol Powys
Ysgol Gynradd Buttington Trewern, gogledd Powys
Ysgol Gynradd Carreghofa, gogledd Powys

Roedd Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru wedi dylunio prosiect oedd yn dod â'r canlynol ynghyd:

- Gweithdai cyfranogol (cerddoriaeth, ysgrifennu creadigol, dylunio llwyfan) gyda'r nod o alluogi pobl ifanc mewn ysgolion arweiniol i ddarganfod a datblygu eu sgiliau cerddorol a chreadigol
- Perfformiadau cerddoriaeth ac adrodd stori ryngweithiol oedd yn agored i bob ysgol gynradd oedd yn cynnwys cerddorion proffesiynol neilltuol sy'n cyflwyno cynulleidfaoedd ifanc i gerddoriaeth fyw mewn ffordd oedd yn ymgysylltu
- Sesiynau blasu gydag offerynnau i ddosbarthiadau cyfan yn yr ysgol arweiniol (cynradd yn unig) gyda'r nod o estyn mynediad at chwarae offerynnau i bobl ifanc ym Mhowys

## Y Budd

Roedd y prosiect wedi eu galluogi i gyflwyno'r gweithgareddau canlynol dros dair blynedd, o 2017 – 2019 (edrychwch ar werthusiad annibynnol Phyllida Shaw am ddisgrifiad manylach o weithgareddau'r prosiect):

- 34 o weithdai ½ diwrnod i gyfansoddi a pherfformio caneuon mewn ysgolion cynradd, AAA ac uwchradd led led Powys
- 20 o weithdai celf a dylunio am ½ diwrnod mewn ysgolion cynradd ac AAA led led Powys
- 3 sioe newydd i ysgolion cynradd, a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Canolbarth Cymru a naratif sy'n rhyngblethu â hyn gydag ystod o gerddoriaeth wreiddiol a chlasurol i gyflwyno cerddoriaeth fyw mewn ffordd sy'n ymgysylltu ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc
- 14 o berfformiadau rhyngweithiol a gyflwynwyd yn Theatr Brycheiniog, Canolfan Gelfyddydol Wyeside a'r Hafren sy'n agored i bob ysgol gynradd leol
- Adnodd ar-lein sydd wedi'i ddylunio'n benodol i gyfoethogi'r profiad fel cynulleidfa i bobl ifanc sy'n mynychu pob un o'r tair sioe, gan gynnwys cyflwyniad i'r sioe, cysylltiadau gyda'r gerddoriaeth dan sylw, a thraciau tywys/tudalennau ceerddoriaeth ar gyfer caneuon i'r 'gynulleidfa gyfan' y mae pawb yn ymuno i'w canu
- Cyfres o 6 o sesiynau profi offerynnau wythnosol ar gyfer y dosbarth cyfan ym mhob ysgol gynradd ac ysgol AAA arweiniol yn 2018 a 2019
- Gwerthusiad annibynnol o'r prosiect a gynhaliwyd gan Phyllida Shaw

## Canlyniad

Disgrifir y rhain yn fanylach yn Adroddiad Gwerthuso.

- Perthynas gryfach gydag ysgolion Powys
- Perthynas gryfach rhwng y sefydliadau celfyddydol ym Mhowys a thu hwnt
- Cyfranogwyr mewn gweithdai yn gwerthfawrogi'r cyfle i brofi cerddorion proffesiynol yn chwarae eu hofferynnau o fewn cyrraedd iddynt;
- Cyfranogwyr mewn gweithdai yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio ochr yn ochr â cherddorion proffesiynol, gan greu cerddoriaeth newydd, cael eraill yn gwrando ar eu syniadau ac yn cynnwys y rhain o fewn y gweithiau newydd hynny;
- Cyfranogwyr mewn gweithdai yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol, gan ddysgu sgiliau newydd a chreu dyluniadau llwyfan o ansawdd uchel ar gyfer y sioeau;
- Roedd y bobl ifanc fu'n cymryd rhan yn y sesiynau profi offerynnau wedi gallu perfformio cyngherdd fach i weddill yr ysgol/teulu/ffrindiau wedi chwe sesiwn; mynegodd lawer ohonynt ddiddordeb mewn parhau i ddatblygu eu sgiliau trwy wersi parhaus yn yr ysgol;
- Nododd yr athrawon fod disgyblion nad oedd ganddynt ddiddordeb neu nad oeddynt yn gallu canolbwyntio yn y dosbarth fel arfer yn talu fwy o sylw ac yn ymgysylltu'n well, gan synnu eu hathrawon yn aml gyda'u parodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfansoddi caneuon a dylunio llwyfan;
- Cafodd yr ymgysylltu gyda'r perfformiad ar y llwyfan ei gyfoethogi i'r disgyblion hynny sydd wedi cymryd rhan mewn creu dyluniadau llwyfan gan fod ganddynt gysylltiad ychwanegol gyda'r cynhyrchiad;
- Cafodd yr ymgysylltu gyda'r perfformiad ei gyfoethogi'n gyffredinol ar gyfer y disgyblion hynny a berfformiodd eu caneuon newydd fel rhan o'r sioe gan iddynt gael cysylltiad ychwanegol gyda'r cynhyrchiad a'r cerddorion hynny a arweiniodd eu gweithdy;
- Dywedodd athrawon fod y lefelau ymgysylltu ar gyfer y gynulleidfa yn gyffredinol yn uchel, gyda rhai yn nodi ymgysylltu penodol gan ddisgyblion sydd ag anawsterau ymddygiad yn yr ysgol.

## Deilliannau/Canlyniadau'r Prosiect

| Deilliant (Dangosydd Lefel Achos) | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | 0 |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 0 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 1 |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/ a gefnogwyd | 1 |
| Nifer yr hybiau cymunedol a grewyd | 0 |

| | |
|---|---|
| Nifer y rhanddeiliaid a gafodd eu cynnwys | 6 |
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd (digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn unig) | 0 |

| Deilliannau | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer y swyddi a grewyd | 8 = 0.22 FTE |
| Nifer y cymunedau sy'n elwa | 5 |
| Nifer y busnesau sy'n elwa | 22 |

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

## Logos Partneriaid/ Arianwyr Cyfatebol

## Manylion y Prosiect

| Data Allweddol | Manylion y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan: | Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru |
| Dyddiad Dechrau: | Ionawr 2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Diwedd: | Tachwedd 2019 |
| Thema LEADER: | 3. Archwilio ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau lleol anstatudol<br>1. Ychwanegu Gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol |

## Manylion Ariannol

| Disgrifiad | Swm | % |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £83,465.40 | 100.00% |
| Nawdd y Gronfa Datblygu Gwledig: | £66,324.00 | 79.4629% |
| Nawdd Cyfatebol: | £17,141.40 | 20.5371% |

Astudiaeth achos wedi'i chwblhau ar: 17 Rhagfyr 2019